Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 o Orffennaf 2023

Presennol oedd John Jones, Menai Hughes, Ffuon Williams, Prys Ellis (Cadeirydd), Llio Morris, Guto Jones, Trystan Humphreys, Einion Edwards a Cyng Gwennol Ellis, cafwyd ymddieuriadau gan Maria Roberts.
Datgan diddordeb - neb
Cofnodion blaenorol fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.
**Gohebiaeth**
[1] Yr Eglwys - cafwyd cais gan aelodau yr Eglwys i osod 'Portloo' wrth fynnedfa drws yr Eglwys, cytunwyd i hyn ond pasiwyd i gysylltu yn gofyn y pwyntiau nodedig sef Yswiriant, a fydd ar glo ac yn saff rhag unrhyw fandaliaeth.
[1.1] Arolwyg Tai – cafwyd llythyr yn gofyn os oeddem am fod yn rhan o ddiwrnod agored yr hoffai y Grwp Cynhefin ei gynnal yn yr ardal gyda y tri Cyngor Cymuned sef Llanfihangel, Llangwm a Cherrig, cytunwyd ar dyddiad a nodwyd yn y llythyr sef 1af o Awst ac inni gynnig cynnal y sesiwn agored yn yr Ystafell y Plwyf.
[1.2] Dw Cymru manylion am grant o gronfa Gymunedol Dwr Cymru - pasiwyd i geisio am botiau blodau i bentrefi Glasfryn, Cefn Brith, Pentrellyncymer, Yr Alwen a Cwmpenanner clerc i wneud ymoliadau.
[1.3] Llythyr di new – cafwyd llythyr yn datgan ei diolch a chamoliaeth ir cynnal a chadw yn y Fynwent Newydd.
[1.4] Haydn Roberts anfoneb am dorri gwair yn Tyn Rhyd a Fynwent yr Eglwys 2 fis - £480.00 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Daniel Rimmer – cafwyd anfoneb am waith gynnal a chadw ar y peiriant tori gwair £30.00 pasiwyd iw dalu.
[1.6] Cadwyn Clwyd – cafwyd llythyr yn datgan nad oeddem yn llwyddiannus gyda ceisio am grant i gael llwybr tarmac yn y fynwent. Pasiwyd i geisio am grant o ffynnonnell arall y flwyddyn nesaf sef grant o 'Shared Prosperity'.
[1.7] Snowdonia Fire Service annfoneb blynnyddol am waith archwilio yr offer tan yn y Ystafell Blwyf £200.70 pasiwyd iw dalu.
[1.8] Sedd wag cynghorydd - cafwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Trystan Humphreys yn dagan ei fod am roi gorau iw swydd fel Cynghorwr – y clerc i gychwyn ar y broses o osod hysbsiad I fynnu drwy gysylltu ar Etholiadau Cyngor Sir Conwy.
[1.9] Cyngor Sir Conwy - cafwyd cais cynllunio gan Mr a Mrs Mainwaring i dynnu ty gwydr presennol ac gosod un newydd – nid oedd gwrthwynebiad. Ni gymerodd y Cyh Gwennol Ellis rhan yn y drafodaeth.
[2.0] Llwybr troed ger deilad Hafryn, cafwyd cwyn bod y gwair y fawr ac angen ei dorri pasiwyd gofyn i Haydn ir dorri.
[2.1] Awdit 2022/23 cafwyd e bost yn gofyn ir Cynghorwyr ddatgan os oeddent wedi derbyn taliadau or Cyngor Bro, cafwyd llythyr wedi ei arwyddo gan pob aelod yn datgan dim taliad.
[2.2] Taliad claddu – derbyniwyd £20 .00 am dorri new Newydd ar garreg fedd y diweddar Glenys Watson.
[2.3] Holiadur ir pentref - pasiwyd i greu holiadur penodwyd panel bach i fod yn gyfrifol am ei greu sef Guto, Ffuon, Maria, Cyng Gwennol a Carol. Pasiwyd i ddod at ein gilydd yn mis Awst.
[2.4] Berllan Cae Llwyd – cafwyd Cyngor i beidio a tori y glastwellt tan fis Medi/Hydref.
[2.5] Fynwent – nodwyd bod angen cael tori coed y thacluso yn y fynwent pasiwyd i ofyn i John Appleby am gyngor.

[2.6]  Adroddiad y Cygh Gwennol Ellis  - nodwyd ganddi am new Newydd y llyfrgell fydd Hwb Uwchaled.  LLwybr troed o Faes Aled wedi ei dorri gan y Cyngor. Gyrru drwy’r pentref nodwyd bod cyfafod yn y Llew Gwyn ar 12fed o Orffennaf i gyfarfod a heddwas sydd yn mynd i son am Community speedwatch gan obeithio bod posib cychwyn hwn yn Ngherrig y Drudion.
[2.7]  Ffermwyr Ifanc  - pasiwyd i ysgrifennu at yr aelodau yn i longyfarch ar ddalthu 70 ac am y llwyddiant mawr yn niwrnod y dathlu ddydd sadwrn yn ddiweddar.
[2.8]  Cyngor Conwy  pasiwyd i holi am y ‘sweeper’ i ddod draw ir pentref.